Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd

Gorffennaf 2020

Ar 3 Mawrth 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 1 Mai 2020.

Yn eu cyfarfod ar 17 Ebrill, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymestyn dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan 4 Mehefin 2020, a hynny oherwydd oedi yn yr amserlen seneddol yn San Steffan.

Yn eu cyfarfod ar 18 Mai, cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan Gadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad, gan osod dyddiad newydd o 2 Gorffennaf 2020.

Yn eu cyfarfod ar 29 Mehefin, cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad, gan osod dyddiad newydd o 17 Gorffennaf 2020.